

# Diweddariad y Prif Ystadegydd

## Rhifyn 2

Croesawn eich barn ar unrhyw o'r pynciau a drafodwyd yn y diweddariad hwn - e-bostiwch [desg.ystadegau@cymru.gsi.gov.uk](mailto:desg.ystadegau@cymru.gsi.gov.uk) neu cysylltwch â ni drwy [Twitter @YstadegauCymru](#) (dolen allanol).

## Pa ddata sydd eu hangen arnom am eiddo yng Nghymru?

Yn fy niweddariad diwethaf nodais fod yr ymgynghoriad ar y dangosyddion ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi tynnu sylw eto at y bylchau mewn gwybodaeth am dai. Er mwyn ceisio dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater hwnnw, dros yr ychydig fisoedd nesaf byddwn yn asesu'r galw a'r angen am ddata yn y maes hwn.

Pam fod angen i ni fonitro cyflwr eiddo? Mae angen i ni allu llywio'r broses o ddatblygu a monitro ymyriadau polisi ar gyflwr cartrefi - cyflwr, peryglon, gorlenwi, hygyrchedd, ac effeithlonrwydd ynni. Mae ansawdd tai yn bwysig yng nghyd-destun trechu tlodi ac yn arbennig tlodi tanwydd.

Cynhaliwyd arolwg eiddo diwethaf Cymru yn 2008. Cafodd hwn ei gynnal fel rhan o'r arolwg [Byw yng Nghymru](#), ac yn ystod yr arolwg eiddo bu syrfewyr cymwysedig yn ymweld â thua 2,700 o gyfeiriadau a oedd wedi cymryd rhan ym mhrif arolwg cartrefi Byw yng Nghymru.

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio mae'r galw am yr wybodaeth ddiweddaraf am eiddo yng Nghymru wedi cynyddu a bydd y gwaith hwn yn ystyried beth yw'r ffordd orau o lenwi'r bwlch. Efallai mai'r dull delfrydol fyddai arolwg eiddo o sampl mawr a fyddai'n rhoi dadansoddiad daearyddol da, ond byddai hefyd yn ddud iawn. Efallai fod posibiladau eraill fel defnyddio ffynonellau presennol o ddata a/neu eu cysylltu â'i gilydd (gweler ein gwaith ar [asesu effaith ymyriadau gwella tai ar ganlyniadau iechyd](#)).

Rydym am ystyried pob opsiwn a datblygu'r achos ar gyfer ffordd ymlaen sy'n diwallu cymaint o anghenion y defnyddiwr â phosibl, ond sy'n sicrhau ein bod yn manteisio'n llawn ar ein hadnoddau. Dros yr ychydig fisoedd nesaf byddwn yn siarad â'r rheini sydd â diddordeb mewn data am dai i ddeall anghenion data ond hefyd

beth sydd eisoes ar gael y gellid ei ddefnyddio. Os oes gennych ddi-ddordeb yn y gwaith hwn neu'n credu y gallwch gyfrannu gwybodaeth, cysylltwch â Sara James ar [sara.james@wales.gsi.gov.uk](mailto:sara.james@wales.gsi.gov.uk) (029 2082 6812).

[Rhoddwyd cyflwyniad ar dystiolaeth am amodau tai](#) i Bwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru ym mis Medi.

## Adolygu ein dull o gynnal arolygon aelwydydd

Dros yr haf rydym wedi bod yn ystyried ein dull o gynnal arolygon o unigolion ar raddfa fawr, i weld a oes cyfleoedd i ddatblygu ffordd mwy effeithlon o gynnal yr arolygon hyn, tra hefyd yn gwella hyblygrwydd a'n gallu i fod yn ymatebol wrth gasglu gwahanol bynciau. Er mwyn helpu gyda hyn, rydym wedi comisiynu arbenigwyr allanol i ddatblygu ystod o opsiynau.

Prif ffocws y gwaith hwn yw arolygon fel Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg Iechyd Cymru, ac hefyd arolygon rheolaidd a gomisiynwyd gan rai cyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi bod yn ystyried anghenion eraill arolygon fel arolygon llai aml rydym yn eu hariannu neu'n eu cefnogi - er enghraifft, sut y gall unrhyw arolwg eiddo a ddisgrifir uchod fod yn rhan o ddull newydd.

Disgwylir penderfyniad ynghylch y ffordd ymlaen yn yr hydref, ac ar hyn o bryd rydym yn disgwyl dechrau ymgynghori â defnyddwyr am rai o fanylion y dull a ddewisir, erbyn diwedd 2014. Felly byddaf yn adrodd ymhellach mewn diweddariad yn y dyfodol.

Er mwyn helpu i sicrhau bod gennym yr adnoddau i ddatblygu a chyflwyno'r dull diwygiedig, bydd y gwaith maes o dan gontract presennol yr Arolwg Cenedlaethol, yn dod i ben ym mis Mawrth 2015, a disgwylir i ganlyniadau cyfweiliadau 2014-15 gael eu cyhoeddi yn fuan wedi hynny. Felly ni chaiff Arolwg Cenedlaethol ei gynnal yn 2015-16.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn, cysylltwch â'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Steve Marshall ar [steven.marshall@wales.gsi.gov.uk](mailto:steven.marshall@wales.gsi.gov.uk) (029 2082 5868).

## Cyhoeddi ymatebion i geisiadau am wybodaeth

Yn y Gwasanaethau Ystadegol rydym yn ymdrin â channoedd o geisiadau amrywiol am wybodaeth ystadegol bob blwyddyn - er enghraifft gan y cyfryngau, y sector gwirfoddol, Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd neu fyfyrwyr sy'n chwilio am wybodaeth ar gyfer eu prosiectau. Fel rhan o'n [hymgyngoriad diweddar am ystadegau swyddogol](#) ymrwymwyd i gyhoeddi'r ymatebion i'r ceisiadau hyn, yn ysbryd data agored ac i sicrhau ein bod yn gwneud defnydd ehangach o'r data rydym yn eu creu.

Yn ystod mis Hydref, byddwn yn dechrau cyhoeddi'r wybodaeth hon bob pythefnos ar dudalennau Ystadegau ac Ymchwil ein gwefan. Bydd gennym dudalen yn cynnwys yr holl geisiadau hyn, ond bydd hefyd yn cynnwys yr ymatebion ochr yn ochr â'r pwnc maent yn berthnasol iddo, fel bod defnyddwyr yn gallu gweld yr holl wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi am bwnc penodol.

Glyn Jones, Prif Ystadegydd

Hydref 2014